# Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
**E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778**

4ydd Tachwedd 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT**
***Nos Lun yr 11eg o Dachwedd am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer.
**Noder – bydd Elin William gyda ni yn trafod y cais grant yng nghyswllt y wagen lechi.**

Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

**………………………………………………………………………………………**

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 14eg o Hydref – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd /llwybrau. Ystyried gohebiaeth pellach am y gost o gael giât newydd fel mynedfa i'r chwarae.

b) Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth a'r prosiect wagen lechi – ystyried y diweddaraf. **Derbyn cyflwyniad Elin William**

c) Coeden yn difrodi wal – ystyried y diweddaraf

d) Materion angen sylw yn y Cae Chwarae yn dilyn ymweliad y Cynghorwyr/adroddiad ROSPA -ystyried amcangyfrifon

e) Yr angen  i dorri coeden rhodedendron (a'i lladd) ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn – ystyried adroddiad gan Gynghorwyr fu yno.

5**. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24  -nodi'r diweddaraf.

b) Anfonebau;

c) Ceisiadau am arian

- Cais Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn
- Ambiwlans Awyr Cymru

d) Ystyried **cyllideb ddrafft** ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac yna ystyried lefel y praesept ar sail y drafodaeth.

7. **Adroddiad Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

8**.Adroddiad Cyng Elwyn Evans , Cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

**9. Gohebiaeth.**

- Materion mynwent Llanfihangel y Pennant
- Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru
- Cynhadledd SLCC/Un Llais Cymru – Dydd Mercher 20fed Tachwedd
- Gohebiaeth Cyngor Cymuned Llanystumdwy ynglyn a Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.
- Llythyr gan bwyllgor Achub Plas Tanybwlch yn gofyn am gefnogaeth

10. **Unrhyw fater arall**